Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/LG/1544/18

Mike Hedges, AC
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
seneddCCERA@assembly.wales

12 Mehefin 2018

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 18 Ebrill ynghylch y Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru drafft.

Mae ymateb manwl wedi'i ddarparu i'r 13 o argymhellion yr ydych wedi'u gwneud yn Atodiad A.

Rydym wedi gofyn am ddiweddariad ar ddull Llywodraeth Cymru o fynd i'r afael â llygredd plastig yn y môr. Yng Nghymru, mae camau i atal sbwriel yn canolbwyntio ar raglenni gorfodi ac ar gydweithio ar draws sefydliadau y prif bartneriaid; gweithio i newid agwedd ac ymddygiad y cyhoedd drwy gynnwys ac addysgu'r gymuned.

Cafodd Tasglu Sbwriel Môr ei sefydlu gan Grŵp Gweithredu a Chynghori Cymru ar Faterion Morol i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru ar Sbwriel Môr. Mae'r Grŵp wedi sefydlu'r Partneriaeth Moroedd Glân ers hynny, sydd, drwy greu sylfaen dystiolaeth gref a chanolbwyntio ar gamau ataliol, yn anelu at fynd i'r afael â phroblem sbwriel môr yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb i ohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn yr un iaith ac ni fydd gohebu yn y Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cafodd rhan o Ras Cefnfor Volvo ei chynnal yng Nghaerdydd rhwng 27 Mai a 10 Mehefin eleni. Gwnaeth Ras Cefnfor Volvo ddefnyddio ei blatfform adrodd storïau i bwysleisio ymgyrch Amgylchedd Moroedd Glân y Cenhedloedd Unedig, sef 'Turn the Tide on Plastics', gan fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o sbwriel môr. Bydd Gweinidog yr Amgylchedd yn gwneud cyhoeddiadau pellach ar weithredu yn ei Huwchgynhadledd Cefnforoedd ar 5 Mehefin.

Ar 8 Mai cyhoeddodd Gweinidog yr Amgylchedd adroddiad cryno ar Gyfrifoldeb Cynhyrchwyr Estynedig (EPR), gan roi amlinelliad o ystod o opsiynau gan gynnwys cynlluniau dychwelyd ernes, trethi neu daliadau am gwpanau untro a newidiadau i reoliadau presennol yr EPR. Dw i wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y rhan y gall Gymru ei chwarae mewn cynllun dychwelyd ernes ar draws y DU. Gall datblygu ffyrdd o weithio a fydd yn cael eu defnyddio ar draws y DU fod yn llai cymhleth i ddefnyddwyr ac yn well i fusnesau. Maen nhw wedi dweud wrthym mai dyna fyddai'n well ganddyn nhw. Dwi hefyd yn ystyried newid rheoliadau fel y bo cynhyrchwyr a manwerthwyr yn talu cyfran fwy o gostau rheoli gwastraff.

Cyhoeddodd y Gweinidog hefyd ei huchelgais i Gymru fod yn 'Genedl Ail-lenwi' gyntaf y byd. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r gwaith wedi dechrau i drefnu bod dŵr yfed ar gael yn fwy hwylus mewn mannau cyhoeddus ledled Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda City to Sea ar ddatblygu ymgyrch ail-lenwi i Gymru, a bydd hefyd yn cydweithio'n agos â chwmnïau dŵr yng Nghymru a chyda'n busnesau, ein helusennau a'n digwyddiadau mawr. Bydd y gwaith hefyd yn cynnwys ymgyrch i newid ymddygiad er mwyn helpu pobl i weld gwerth dŵr ac i sicrhau mai dŵr tap yw'r dewis cyntaf ar gyfer torri syched.

Rydyn ni'n parhau i gydweithio â Thrysorlys EM ar gyflwyno treth ar lefel y DU ar blastigau untro. Byddwn, ar yr un pryd, yn parhau i ystyried codi treth, ardoll neu dâl ar gwpanau diodydd untro yng Nghymru. Rhywbeth arall dwi'n ystyried yw ei gwneud yn orfodol i ddefnyddio cwpanau amldro ac mae'n bosibl y byddwn yn cynnal cynllun peilot. Rydym wrthi bellach yn datblygu deddfwriaeth i gyflwyno'r gwaharddiad llawn ar weithgynhyrchu a gwerthu cynhyrchion sy'n cynnwys microbelenni yng Nghymru erbyn 30 Mehefin 2018.

Mae Cymru ar flaen y gad wrth ailgylchu. Ni yw'r gorau yn y DU, y gorau ond un yn Ewrop a'r gorau ond dau yn y byd. Mae hyn o ganlyniad uniongyrchol i'r polisïau sy'n cael eu gwneud yng Nghymru.

Yn ddiweddarach eleni, byddwn yn ymgynghori ar reoliadau i weithredu Rhan 4 Deddf yr Amgylchedd (Cymru), fydd yn galw ar fusnesau a chyrff y sector cyhoeddus i wahanu gwahanol fathau o wastraff, fel y mae cartrefi yng Nghymru wedi ei wneud ers blynyddoedd. Bydd hyn yn cyfrannu'n sylweddol at gyfraddau ailgylchu yng Nghymru ac mae'n iawn bod angen i bawb weithredu.

A fyddech cystal â rhoi gwybod imi am yr amserlen ar gyfer y gwaith archwilio yr ydych yn ei grybwyll.

Yn gywir
Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR NEWID HINSAWDD, AMGYLCHEDD A MATERION GWLEDIG:

ADBORTH AR GYNLLUN MOROL CENEDLAETHOL CYMRU - DRAFFT

MEHEFIN 2018

Cefndir a'r sefyllfa bresennol

Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 yn rhoi sylfaen statudol i system newydd sy'n cael ei harwain gan gynllun ar gyfer gweithgareddau morol drwy'r DU gyfan. Gweinidogion Cymru yw'r Awdurdod Cynllunio ar gyfer ardaloedd y glannau ac ar y môr yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y Cynllun Morol Cenedlaethol cyntaf i Gymru ("y Cynllun") sy'n nodi polisi'r Llywodraeth ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf ar gyfer defnydd cynaliadwy o'n moroedd.

Ar 7 Rhagfyr 2017, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad 16 wythnos ar y Cynllun Morol Cenedlaethol drafft ('y Cynllun drafft), ynghyd â nifer o ddogfennau atodol gan gynnwys; trosolwg o ddatblygiad Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru, Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd, Asesiad Cynaliadwyedd, ac Adolygiad o'r polisi ar garthu agregau morol dros dro. Cafwyd 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad, a fydd yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ddiwedd mis Mehefin 2018.

Dros yr ychydig fisoedd nesaf, bydd Llywodraeth Cymru yn asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac yn gweithio gydag aelodau'r Grŵp Cyfeirio i Randdeiliaid i archwilio'r themâu allweddol a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad. Byddwn hefyd yn gweithio ar draws meysydd polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gytuno ar destun terfynol y Cynllun. Ar yr un pryd, byddwn yn gweithio i ddatblygu ein dull o gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun.

Mae'r gwaith o roi ystyriaeth derfynol i'r Cynllun a'r dogfennau cysylltiedig, a'i fabwysiadu a'i gyhoeddi, wedi'i amserlennu ar gyfer gwanwyn 2019 ar hyn o bryd.

Argymhelliad 1: Dylai'r Cynllun Morol Cenedlaethol drafft ('y Cynllun drafft') ddatgan uchelgais benodol i sicrhau bod ein hamgylchedd naturiol yn wydn, a dylai'r cynllun roi pwysau cyfartal i sicrhau gwydnwch amgylcheddol a hyrwyddo "twf glas".

Ymateb: Derbyn

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth weithredu eu swyddogaethau mewn perthynas â Chymru a, thrwy wneud hynny, hyrwyddo gwydnwch ecosystemau, i'r graddau bod hynny'n gyson â'r dull cywir o arfer y swyddogaethau hynny. Gwydnwch ecosystemau yw sylfaen sicrhau buddiannau cymdeithasol ein moroedd. Mae cael ecosystemau gwydn felly yn rhan hanfodol o sicrhau twf glas.

Yn unol â'r rwymedigaeth hon, mae gweledigaeth y Cynllun drafft yn nodi: 'Drwy ddull sy'n seiliedig ar ecosystem, mae ein moroedd yn iach ac yn gydnerth ac yn cefnogi economi gynaliadwy a ffyniannus'. Cefnogir yr agwedd hon ar y weledigaeth gan amcanion 1, 8, 9 a 10 y cynllun sy'n nodi:

- **Amcan 1** – Hybu datblygu cynaliadwy yn ardal forol Cymru drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant Cymru, gan sicrhau Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy drwy ystyried effeithiau cronnol yr holl ffyrdd o ddefnyddio'r amgylchedd morol.
- **Amcan 8** – Helpu i gyrraedd a chynnal Statws Amgylcheddol Da (GES).
- **Amcan 9** – Diogelu, cadw, adfer a gwella bioamrywiaeth forol er mwyn atal a gwrthdroi ei dirywiad.
- **Amcan 10** – Cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau morol a'r buddion y maent yn eu rhoi er mwyn cwrdd ag anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae'r Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, a gyhoeddwyd ym mis Awst 2017, yn nodi'r ail garreg filltir fawr o ran gweithredu Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Mae'r Polisi'n nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn modd cynaliadwy, sy'n mynd i'r afael â'r heriau y mae ein hadnoddau naturiol yn eu hwynebu i'w gwydnwch ac yn gwireddu'r cyfleoedd sylweddol y maent yn eu darparu ar gyfer ein llesiant a'n ffyniant ar draws nodau llesiant Cymru.

Bydd y Polisi'n ysgogi camau gweithredu ar draws Llywodraeth Cymru. Mae dyfroedd Cymru yn adnodd cenedlaethol pwysig a bydd y Cynllun yn llywio'r ffordd y byddwn yn cyflawni blaenoriaethau'r Polisi yn y maes hwn fel rhan o'n dull o reoli adnoddau naturiol morol Cymru. Bydd y Cynllun yn glir y dylai'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau sicrhau bod y cyfleoedd ar gyfer twf glas yn cael eu cefnogi yn y cyd-destun o gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol, o dan Ddeddf yr Amgylchedd, mewn perthynas â bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 2: Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd y sector twristiaeth a hamdden arfordirol a morol, a gwneud mwy i dynnu sylw at ei botensial i gefnogi twf glas yn y Cynllun drafft.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn cynhyrchion newydd ar ein harfordir, o adfywio cyrchfannau i gymorth busnes uniongyrchol, a defnyddir y rhain i farchnata Cymru yn ystod blwyddyn y môr. Mae ein hymgyrch newydd *Ffordd Cymru* yn cynnwys llwybr arfordirol ac rydym yn cydnabod bod cefnogi ein morluniau anhygoel yn hanfodol. Mae ein hymchwil yn dangos pa mor bwysig yw ein harfordir i dwristiaeth yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod cynlluniau morol yn amlygu sut y mae gan dwristiaeth a gweithgareddau hamdden arfordirol a morol botensial mawr o ran cyfrannu at dwf glas.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 3: Dylai Llywodraeth Cymru nodi diben ardaloedd adnoddau strategol yn y Cynllun drafft, a nodi rhywfaint o gysondeb yn y dull gweithredu mewn perthynas â hwy. Dylai'r Cynllun drafft nodi'n glir y bydd y datblygiad yn dilyn dull gweithredu ecosystemau ac o fewn terfynau amgylcheddol.

Ymateb: Derbyn

Bydd y Cynllun yn nodi'n glir ddiben yr Ardaloedd Adnoddau Strategol, sut y cawsant eu nodi a beth rydym yn disgwyl iddynt ei gyflawni. Mae'r Cynllun yn nodi'r Ardaloedd Adnoddau Strategol fel rhan o'n dull o gynllunio gofodol, gan alluogi a chefnogi sylfaen dystiolaeth well ar gyfer y meysydd hyn, ar raddfa strategol (e.e. a oes cyfyngiadau amgylcheddol penodol neu wasanaethau ecosystem pwysig y dylid eu hystyried) ac ar lefel y prosiect (e.e. y cyfleoedd a'r cyfyngiadau penodol ar gyfer gweithgareddau penodol ym mhob ardal).

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 4: Dylai Llywodraeth Cymru geisio sefydlu panel cynghori trawsffiniol sy'n cynnwys y Sefydliad Rheoli Morol a Cyfoeth Naturiol Cymru i oruchwylio materion morol trawsffiniol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae cynllunio a rheoli morol trawsffiniol yn faes pwysig y mae angen ei ystyried ar wahanol raddfeydd ar draws Môr Iwerddon yn ogystal ag mewn perthynas â rhyngwynebau'r tir a'r môr. Byddwn yn:

- parhau i weithio'n agos gyda'r Sefydliad Rheoli Morol fel yr awdurdod cynllunio morol ar gyfer de-orllewin a gogledd-orllewin Lloegr, yr ydym yn rhannu'r cyfrifoldeb cynllunio ag ef yn aberau afon Dyfrdrwy ac afon Hafren;
- sefydlu Grŵp Gweithredu awdurdodau cyhoeddus perthnasol i hwyluso'r broses o gyfnewid gwybodaeth a sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Sefydliad Rheoli Morol;
- ystyried y ffordd orau o ymgysylltu ar y raddfa aberol leol gan gynnwys rhinweddau panel cynghori trawsffiniol;
- parhau i ddatblygu perthnasau gyda gwledydd cyfagos gan gynnwys drwy fenter newydd rhwng pum gweinyddiaeth cynllunio morol Môr Iwerddon.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru ddangos sut y bydd y Cynllun drafft yn rhyngweithio â'r datganiadau ardal a gyflwynir o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wrthi'n datblygu'r gyfres gyntaf o Ddatganiadau Ardal o dan Ddeddf yr Amgylchedd. Rôl y Datganiadau Ardal yw hwyluso gweithrediad Polisi Adnoddau Naturiol Cymru yn y cyd-destun lleol. Mae dyfroedd glannau Cymru yn adnodd pwysig, a bydd y Cynllun yn arwain y ffordd y byddwn yn rhoi blaenoriaethau'r Polisi ar waith yn y maes hwn fel rhan o'n dull o reoli adnoddau naturiol morol Cymru.

Bydd un o'r saith Datganiad Ardal a gynhyrchir yn cwmpasu ardal forol glannau Cymru, a bydd yn mynd i'r afael yn benodol â'r angen i alinio â chynllunio morol. Bydd y Datganiadau Ardal yn darparu tystiolaeth ynghylch y blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi a'r risgau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy. O'r herwydd, byddant yn offeryn pwysig i gefnogi gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Cynllun drafft yn cynnwys polisi sy'n ei gwneud yn ofynnol I roi ystyriaeth i unrhyw Ddatganiad Ardal perthnasol wrth wneud penderfyniadau. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen am ganllawiau gweithredu ategol mewn perthynas ag agweddau ar y polisi cynllun morol fel rhan o'r broses cynllunio morol ehangach. Os yw'n briodol, gallai hyn gynnwys canllawiau sy'n ymwneud â Datganiadau Ardal.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun drafft yn gweithio gyda'i gilydd. Dylai hyn gynnwys y broses o wneud penderfyniadau ar gyfer cytuno ar ddatblygiadau ar dir a fydd yn effeithio ar yr amgylchedd morol a'r broses ymgynghori rhwng yr awdurdodau cynllunio perthnasol a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Gyda'i gilydd, bydd y Cynllun Mool, Polisi Cynllunio Cymru a'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn pennu'r cyfeiriad a'r fframwaith strategol ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn amgylcheddau daearol a morol. Byddant yn cefnogi dull integredig o wneud penderfyniadau a chydweithio ar draws rhyngwynebau ar y tir a'r môr.

Polisi Cynllunio Cymru

Mae'r polisi'n nodi'r polisïau cynllunio defnydd tir cenedlaethol sy'n cynnwys polisïau ar amrywiaeth o bynciau morol sy'n croesi'r arfordir gan gynnwys Ynni, Trafnidiaeth, Rheoli Arfordirol a Bioamrywiaeth.

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

Bydd y Fframwaith yn nodi'r materion cynllunio gofodol cenedlaethol ac yn adlewyrchu'r polisïau yn y Cynllun Morol. Gall y Fframwaith hefyd gynnwys, o bosibl, bolisïau penodol ar y datblygiadau defynddio tir sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau a nodir yn y Cynllun.

Bydd gan y Fframwaith statws cynllun datblygu a bydd ganddo bwysau sylweddol yn y broses gwneud penderfyniadau cynllunio ar y lan, gan gynnwys Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol a'r caniatadau ychwanegol hynny a drosglwyddwyd i Gymru gan Ddeddf Cymru.

Mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith a byddwn yn defnyddio'r cyfnod hwn, cyn cyhoeddi'r fersiwn ddrafft o'r Fframwaith yn 2019, i ddeall a datblygu ein dealltwriaeth o'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng y ddau gynllun. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth bellach o sut y bydd y Cynllun Morol, y Fframwaith Datblygu a'r Polisi Cynllunio yn cydweithio i gyflawni ein hamcanion ar gyfer ein tir a'n môr.

Caniatadau Datblygu

Er bod y broses o gael caniatâd o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn estyn i'r marc distyll, mae rhai datblygiadau'n pontio'r ardal ar y tir ac ar y môr. Mae'r rhain yn cynnwys ceisiadau seilwaith fel diwygiadau i borthladdoedd neu harbyrau yn ogystal â datblygiadau adnewyddadwy ar y môr fel technolegau'r llanw a thonnau. Ar 30 Ebrill, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ymgynghoriad sy'n nodi sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi caniatâd i brosiectau o'r fath yn y dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad yn cynnig sefydlu math newydd o ganiatâd sy'n anelu at integreiddio'r Fframwaith a'r Cynllun yn y broses o wneud penderfyniadau gan wneud y naill a'r llall y prif sail polisi ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch seilwaith.

Proses Ymgynghori

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymgynghorai statudol a bydd yn parhau i fod yn ymgysylltiedig â datblygiad y Cynllun, y Polisi a'r Fframwaith (gan gynnwys y broses Gwerthuso Cynaliadwyedd Integredig).

Fel rhan o'r broses caniatâu seilwaith newydd, mae'n cynnig y bydd yn ofynnol i'r datblygwyr gynnal ymgynghoriad cyn gwneud cais gydag ymgynghorai statudol fel Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â chyrff cadwraeth, ar y môr, sy'n adlewyrchu'r gofynion presennol ar y lan. Mae hefyd yn cynnig ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau cynllunio lleol yn cyflwyno Adroddiad Effaith Lleol mewn ymateb i gynllun mawr arfaethedig.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 7: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu rhaglen casglu tystiolaeth, a gefnogir gan gyllideb benodol, i'w chyflwyno gan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae'r cynllun yn pwysleisio'r angen am ddull ar y cyd mewn perthynas â thystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi rhaglen eang o gasglu tystiolaeth, a ddarperir gennym ni ac amrywiaeth o bartneriaid. Mae'r dystiolaeth mewn perthynas â'r Cynllun yn ymwneud ag amrywiaeth eang o bynciau, nid dim ond ansawdd a chyflwr amgylcheddol, (e.e. yr adnoddau sydd ar gael, gweithgareddau cyfredol, cyfleoedd i gyd-fyw, ystyriaethau cymdeithasol-economaidd) ac mae angen casglu tystiolaeth o'r fath o amrywiaeth o ffynonellau a chan amrywiaeth o sefydliadau.

- Mae cymorth grant Llywodraeth Cymru i Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu ar gyfer casglu tystiolaeth morol ac arfordirol (e.e. monitro safleoedd a warchodir);
- Mae ein cyllideb tystiolaeth morol a rennir, a weinyddir gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), yn cefnogi ymchwil a gweithgaredd tystiolaeth strategol ledled Lloegr a Chymru; ac
- Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal gwaith monitro o stociau pysgod a gweithgaredd pysgota ymysg yr asesiadau o weithgareddau ac adnoddau naturiol eraill.

Mae gwaith casglu tystiolaeth pwysig arall yn cael ei wneud gan fusnesau, academia, sefydliadau elusennol ac unigolion.

Ein ffocws yw sicrhau bod y gweithgaredd casglu tystiolaeth nawr ac yn y dyfodol yn gydgysylltiedig ac wedi'i integreiddio gyda'r data'n cael eu casglu unwaith a'u defnyddio sawl gwaith. Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl bwysig i'w chwarae a bydd yn parhau i gasglu tystiolaeth forol fel rhan o bersbectif ehangach. Drwy'r broses cynllunio morol, rydym yn datblygu ein dealltwriaeth o fylchau a blaenoriaethau o ran tystiolaeth a bydd hyn yn bwydo i mewn i gynllun tystiolaeth morol ehangach Llywodraeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Ymateb 8: Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad cynhwysfawr o'r Cynllun drafft ar ôl pum mlynedd i ystyried yn llawn y newidiadau o ran polisi a deddfwriaeth o ganlyniad i Brexit.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae gofyniad statudol o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) i adolygu cynlluniau morol a chyhoeddi "adroddiad Effeithiolrwydd" pob tair blynedd, ac "adroddiad Bwriadau" pob chwe blynedd. Bydd yn bwysig bod y broses o adolygu'r Cynllun yn cynnwys ystyriaethau'n ymwneud â Brexit.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 9: Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y caiff llwyddiant y cynllun ei fesur a'i fonitro.

Ymateb: Derbyn

Mae gwerthuso effeithiolrwydd unrhyw gynllun yn rhan bwysig o'r broses gynllunio. Mae Deddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009) (A.61) yn ei gwneud yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru, fel yr awdurdod cynllunio morol, yn adolygu rhai materion penodol cyhyd â bod y cynllun yn weithredol, gan gynnwys:

- effeithiau'r polisïau yn y cynllun morol;
- effeithiolrwydd y polisïau hynny o ran sicrhau bod yr amcanion, y paratowyd ac y mabwysiadwyd y cynllun morol ar eu cyfer, yn cael eu bodloni; a
- y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r amcanion hynny;
- y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at sicrhau bod yr amcanion, y paratowyd ac y mabwysiadwyd Datganiad Polisi Morol y DU ar eu cyfer, yn cael eu bodloni yn y rhanbarth hwnnw (lle mae datganiad ar waith).

Rhaid i'r awdurdod cynllunio gyflwyno adroddiad sy'n ymwneud â'r materion hyn gerbron y Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o fewn tair blynedd i'r dyddiad y mabwysiadwyd y cynllun. Rhaid cyhoeddi adroddiadau dilynol o leiaf bob tair blynedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ein cynigion manwl ar gyfer monitro ac adrodd ac yn cyhoeddi ein dull gweithredu ochr yn ochr â'r Cynllun.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 10: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod canllawiau a hyfforddiant ar gael i helpu i gyflwyno'r cynllun. Dylai fod ar gael i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys aelodau'r awdurdodau lleol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i ddarparu hyfforddiant a chanllawiau a'u gwerth posibl. Ein ffocws cychwynnol wrth hwyluso gweithrediad y cynllun yw gweithio gyda'r Awdurdodau Cyhoeddus perthnasol, a fydd yn gwneud penderfyniadau o dan y cynllun, a'u cefnogi. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr ar gyfer y prosiect angen cymorth hefyd. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gytuno lle mae angen canllawiau i gefnogi gweithrediad y cynllun.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 11: Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i gostau a manteision penodi swyddogion gweithredu rhanbarthol i gynnig arweiniad a chyflwyno rhaglen weithredu.

Ymateb: Derbyn

Bydd cefnogi gweithrediad y Cynllun yn agwedd bwysig ar y gwaith ar gyfer Llywodraeth Cymru: cyn ac ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Rydym yn cynnal trafodaethau gyda'r Sefydliad Rheoli Morol ac awdurdodau cynllunio eraill i ddysgu o'u profiad o weithedu cynlluniau. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i asesu costau a manteision penodi swyddogion gweithredu rhanbarthol i gefnogi gweithrediad y Cynllun. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau cyn mabwysiadu'r cynllun.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 12: Dylai Llywodraeth Cymru geisio codi proffil y cynllun gyda'r cyhoedd yn ehangach ac edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod cynnwys y cynllun mor hygyrch â phosib.

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein polisi mewn modd agored a chydweithredol, gan geisio adborth gan aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid ar gyfnodau allweddol o'r gwaith datblygu. Mae ymgysylltiad ystyrlon yn flaenoriaeth drwy gydol y broses gynllunio, fel y nodir yn y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd.

Rydym wedi datblygu cynllun cyfathrebu i gefnogi'r gweithgaredd o dan y Datganiad ynghylch Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Er mwyn cynorthwyo'r cyhoedd yn ehangach i ddeall cynlluniau morol, rydym wedi creu animeiddiad y byddwn yn ei hyrwyddo ymhellach wrth i'r cynllun gyrraedd ei gyfnodau olaf. Mae ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid wedi chwarae rôl allweddol o ran llunio'r cynllun a'i gyfathrebu drwy ein rhwydweithiau, a bydd yn parhau i wneud hynny. Byddwn yn gweithio gyda'r grŵp hwn i ddeall yr opsiynau ar gyfer gwneud y cynllun mor hygyrch â phosibl.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.

Argymhelliad 13: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried llunio cynlluniau morol rhanbarthol. Dylai'r ymarfer hwn ystyried a yw'n ddefnyddiol canolbwyntio'n benodol ar ardaloedd defnydd uchel fel aberoedd ac arfordir Sir Benfro.

Ymateb: Derbyn

Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi ymgynghori ynghylch yr angen am gynlluniau morol rhanbarthol. Yn ogystal, rydym wedi comisiynu arolwg o'r arferion da mewn systemau cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol. Yn gyffredinol, mae cefnogaeth dda ar gyfer cynlluniau is-genedlaethol ond mae'r rhanddeiliaid wedi awgrymu ei bod, o bosibl, yn rhy gynnar gweithredu cynlluniau is-genedlaethol ar y cam hwn ac y dylid gwneud ymdrech mewn perthynas â dysgu o brofiad gweithredu'r Cynllun. Rydym yn cydnabod bod rhai ardaloedd o'r ardal cynllun morol yn brysurach nag eraill ac efallai y bydd angen canolbwyntio'n benodol arnynt. Wrth inni weithredu'r Cynllun a chynnal gwaith monitro i ddeall effeithiolrwydd y cynllun a'i bolisïau, byddwn yn ystyried a fyddai ffocws penodol ar ardaloedd o ddefnydd uchel yn briodol.

Goblygiadau Ariannol: Dim. Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni sy'n bodoli eisoes.